

## Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC) Crynodeb Tystiolaeth Gyflym

**Beth yw effaith cost y galw oherwydd COVID Hir ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol? Crynodeb tystiolaeth gyflym.**

**Rhif yr adroddiad – RES00034 (Ebrill 2022)**

### CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

#### **Beth yw Crynodeb Tystiolaeth Gyflym?**

**Papur briffio tystiolaeth interim** i lywio gwaith pellach a sicrhau bod canfyddiadau allweddol ar gael yn gynnar. Maent yn seiliedig ar **chwiliad cyfyngedig o adnoddau allweddol** ac **asesu crynodebau**. Rhoddir blaenoriaeth i astudiaethau sy'n cynrychioli cyfuno tystiolaeth gadarn. Ni chynhelir unrhyw werthuso ansawdd na chyfuno tystiolaeth, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r crynodeb.

#### **Cefndir/Nod yr Adolygiad**

Mae COVID hir yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio arwyddion a symptomau mewn oedolion neu blant sy'n parhau neu'n datblygu ar ôl COVID-19 aciwt. Ym mis Mawrth 2022, amcangyfrifwyd bod 2.4% o boblogaeth y DU (1.5 miliwn) wedi nodi bod symptomau COVID-19 yn para mwy na 4 wythnos ar ôl achos o COVID-19 a gadarnhawyd neu a amheuwyd (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2022). Mae'n bwysig deall goblygiadau cost COVID Hir ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r defnydd o adnoddau.

#### **Canfyddiadau allweddol**

##### ***Hyd a lled y sylfaen dystiolaeth***

- Datgelodd chwiliadau 8 erthygl a adolygwyd gan gymheiriaid, gan gynnwys adolygiadau systematig (n=2, gan gynnwys un adolygiad byw), astudiaethau carfan (n=2), papur modelu (n=1), astudiaeth dull cymysg (n=1), canllawiau clinigol cyflym (n=1), a chynllun astudiaeth arolwg ansoddol (n=1).
- Nodwyd dwy thema gyffredinol: **effaith economaidd** COVID Hir ac amrywiant y **galw gan gleifion** am wasanaethau triniaeth COVID Hir.

##### ***Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth***

- Cyhoeddwyd pob un o'r 8 erthygl yn 2020-22.

##### ***Tystiolaeth o effeithiau***

- Mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig
  - Roedd tystiolaeth gyfyngedig ar gyfer effaith cost y galw oherwydd COVID Hir ar y GIG. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o effaith cost y galw oherwydd COVID Hir ar wasanaethau gofal cymdeithasol.
- Canfuwyd bod dau bapur yn berthnasol i **effaith economaidd** COVID Hir:

- Roedd un papur yn modelu bod 299,730 o Flynyddoedd Bywyd a Addaswyd yn ôl Ansawdd (QALY) wedi'u colli o fewn blwyddyn ers cael yr haint (gellir priodoli 90% o'r golled hon i symptomau COVID ac mae 10% o ganlyniad i anaf parhaol) a 557,764 o QALY wedi'u colli o fewn 10 mlynedd ers cael yr haint (gellir priodoli 49% o'r golled hon i symptomau COVID ac mae 51% o ganlyniad i anaf parhaol). **Mynegodd Llywodraeth y DU barodrwydd i dalu £17.9 biliwn a £32.2 biliwn i osgoi colledion QALY, yn y drefn honno yn seiliedig ar brisiad QALY o £60,000 fesul QALY a enillwyd. Ers hynny, mae'r prisiad QALY presennol wedi cynyddu i £70,000 fesul QALY ym mhrisiau 20/21 (Trysorlys EM, 2022).**
- Canfu ail bapur fod COVID Hir wedi cael **effaith ariannol** ar gleifion o Wlad Belg oherwydd **colli incwm, mwy o gostau gofal iechyd a cholli arian oherwydd gweithgareddau a hepgorwyd.**
- Canfuwyd bod pum papur yn berthnasol i'r **amrywiant yn y galw gan gleifion am wasanaethau COVID Hir** a thynnodd sylw at bwysigrwydd: casglu hanes defnyddio gwasanaethau; penderfynu ar driniaeth yn seiliedig ar symptomau; ac ymchwilio i weithredu, canlyniadau a chost-ffeithiolrwydd.
  - Canfu adolygiad systematig byw yng Nghanada fod y pum **egwyddor model gofal** mwyaf cyffredin ar gyfer triniaeth COVID Hir yn cynnwys: **timau amlddisgyblaethol (90%), gofal integredig (50%), parhad neu gydlynu gofal (50%), hunanreoli (50%) a gofal yn seiliedig ar dystiolaeth (35%)**. Mae'r pum cydran model gofal mwyaf cyffredin yn cynnwys: **asesiad o symptomau safonedig (95%), system atgyfeirio (80%), system ddilydol (75%), gofal rhithwir (70%), a gofal yn y cartref (50%)**.

### Goblygiadau'r polisi

- Mae cost y galw oherwydd COVID Hir ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn aneglur oherwydd diffyg tystiolaeth, gall **astudiaethau parhaus y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR)** ddarparu rhagor o dystiolaeth.
- Dylai ymchwil yn y dyfodol ganolbwyntio ar y canlynol:
  - **Modelu economaidd** o ddyrannu adnoddau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i lwybrau diagnosis, triniaeth a gofal posibl er mwyn amcangyfrif cost COVID Hir fesul claf. Dylai'r model economaidd fod yn amlgyfeiriol, o gofio bod symptomau COVID Hir yn amrywio rhwng cleifion.
  - **Gwerthuso costau a manteision** dyrannu adnoddau i lwybrau diagnosis a thriniaeth posibl, a pha ranbarthau sydd eu hangen, gan ystyried bod rhanbarthau'n amrywio o ran gallu i ddarparu gwasanaethau COVID Hir. Effeithiau COVID Hir ar blant a phobl ifanc, gyda data wedi'i ddadgyfuno oddi wrth oedolion.

### Cryfder y dystiolaeth

- Nid oedd yn bosibl rhoi syniad o gryfder y dystiolaeth gan mai dim ond crynodebau o'r papurau a gynhwyswyd a aseswyd ar gyfer perthnasedd.

### Dylid cyfeirio at yr adolygiad cyflym hwn fel a ganlyn:

RES00034. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Crynodeb o dystiolaeth gyflym o effaith cost galwadau oherwydd COVID Hir ar y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ebrill.2022.

[http://www.primecentre.wales/resources/RES/RES00034-Wales\\_COVID-19\\_Evidence\\_Centre-Rapid\\_evidence\\_summary\\_of\\_the\\_cost\\_impact\\_of\\_Long\\_COVID\\_on\\_the\\_NHS\\_social\\_care-April-2022.pdf](http://www.primecentre.wales/resources/RES/RES00034-Wales_COVID-19_Evidence_Centre-Rapid_evidence_summary_of_the_cost_impact_of_Long_COVID_on_the_NHS_social_care-April-2022.pdf)

### Gellir lawrlwytho'r adroddiad llawn yma:

<https://ymchwiliachydgofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

**Ymwadiad:** Barn yr awduron a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WC19EC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.